# Biliau Aelod Preifat ar reoli cŵn

01 Mai 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 17 Ebrill, pan wnaethoch ofyn,

*Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2012 a 17 Ebrill 2013, a fyddech cystal â datgelu'r holl gyngor cyfreithiol ar gymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd ar amlinelliad o Filiau Aelod Preifat arfaethedig ar reoli cŵn.*

Rwy'n cadarnhau bod Comisiwn y Cynulliad yn cadw gwybodaeth o'r math y soniwch amdano yn eich cais. Bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais o bryd i'w gilydd, o dan Reol Sefydlog 26.87 y Cynulliad, lle mae Aelodau'n cyflwyno cynigion ar gyfer Biliau. Wedyn gall yr Aelod llwyddiannus geisio cymorth y Cynulliad i fwrw ymlaen â'i Fil arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi rhestr o'r holl gynigion ar gyfer Biliau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad yn y pleidleisiau hyn. Cyflwynwyd cynnig mewn perthynas â rheoli cŵn yn ystod y cyfnod a nodir yn eich cais gan Julie Morgan AC http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bill_ballots/bill-043.htm. Cafodd y cynnig ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach (efallai eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi Bil drafft ar reoli cŵn, i ymgynghori arno). Rhoddwyd cyngor cyfreithiol amlinellol ar gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer cynnig Mrs Morgan gan gyfreithwyr y Comisiwn.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys eithriadau y gall sefydliadau eu rhoi ar waith wrth ymateb i geisiadau. Ar yr achlysur hwn, rydym wedi penderfynu peidio â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn unol â'r eithriadau hynny.
Mae ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol yn credu bod y wybodaeth yn dod o dan yr egwyddor o fraint cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu bod eithrio rhag datgelu - yr eithriad ar gyfer braint broffesiynol gyfreithiol yn

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

adran 42 o *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* – yn gymwys i'r wybodaeth yr ydych wedi gwneud cais amdani.

Mae Adran 42 yn eithriad cymwys. Mae hyn yn golygu ei fod yn destun prawf lles y cyhoedd: rhaid datgelu'r wybodaeth y gwneir cais amdani <u>oni bai bod peidio â gwneud hynny ar sail braint broffesiynol gyfreithiol o fwy o fudd i'r cyhoedd</u>. Os yw'r budd i'r cyhoedd yn y ddau achos yn gytbwys, dylid datgelu'r wybodaeth.

- Yn ogystal, mae Cod Ymarfer y Cynulliad ar Fynediad y Cyhoedd at Wybodaeth yn nodi "byddwn ond yn dibynnu ar yr eithriad pe bai datgelu'r wybodaeth yn achosi, neu fod yn debygol o achosi niwed sylweddol i'r pwrpas y mae'r eithrio'n ceisio ei warchod. Hyd yn oed pe bai datgelu yn achosi neu fod yn debygol o achosi'r fath niwed sylweddol, ni fyddwn yn dibynnu ar yr eithriad oni bai bod y niwed hwnnw'n fwy na'r lles i'r cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth".

Rydym wedi pwyso a mesur yn ofalus y ddau fudd i'r cyhoedd yn yr achos hwn ac wedi ystyried y prawf niwed sylweddol a nodir yn y paragraff blaenorol. Ein casgliad yw bod mwy o fudd i'r cyhoedd, yn gyffredinol, o beidio â datgelu'r wybodaeth yn yr achos hwn. Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai datgelu'r cyngor hwnnw'n achosi niwed sylweddol i'r egwyddor o fraint broffesiynol gyfreithiol. Felly, rydym yn gwrthod eich cais. Rydym yn egluro sut y daethom i'r casgliad hwn isod.

Mae budd y cyhoedd sy'n cael ei warchod gan adran 42 yn bwysig, oherwydd pwysigrwydd yr egwyddor y tu ôl i fraint broffesiynol gyfreithiol. Yr egwyddor honno yw y dylai bob person allu cael tryloywder llwyr ym mhob gohebiaeth â'i gynghorwyr cyfreithiol. Mae'r llysoedd wedi bod o'r farn, drosodd a thro, bod budd sylweddol i'r cyhoedd bod pob person yn gallu cyfathrebu'n rhwydd â chyfreithwyr i gael cyngor cyfreithiol, heb ofni datgelu cyffredinol.

Yng nghyd-destun arbennig deddfwriaeth arfaethedig Aelod yn y Cynulliad, mae cadw'r egwyddor yn golygu y gall Aelodau o bob argyhoeddiad gwleidyddol ofyn am gyngor cyfreithiol diduedd ar eu syniadau, a'i gael, a datblygu'r syniadau hynny. Yn wir, dylent allu datblygu'u syniadau yn gyfrinachol, er budd y cyhoedd, mewn trafodaethau gyda'u cyfreithwyr, cyn iddynt wneud y syniadau hynny'n gyhoeddus.

Byddai datgelu cyngor cyfreithiol a roddwyd i Aelodau yn niweidio'n sylweddol eu gallu i ddatblygu syniadau'n gyfrinachol. Byddai hefyd yn achosi niwed sylweddol i'r egwyddor gyffredinol o ddiogelwch ar gyfer trafodaethau agored rhwng cyfreithwyr a'r rheini y maent yn eu cynghori, drwy osod cynsail.

Ar y llaw arall, ni allwn weld unrhyw fudd sylweddol i'r cyhoedd o blaid datgelu yn yr achos arbennig hwn. Yn gyntaf, mae'r cyngor a roddir yn ymwneud yn unig â'r union gynnig a gyflwynwyd. Ni ellid, yn syml, ei roi ar waith ar gyfer unrhyw Fil arfaethedig yn ymwneud â rheoli cŵn. Mae felly'n gyfyng iawn.

Yn ail, nid yw'r Bil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd; yn wir, cafodd y cynnig ei dynnu'n ôl o'r bleidlais. Felly nid yw'r cyngor cyfreithiol a roddwyd yn effeithio ar unrhyw beth nac ar unrhyw un ar hyn o bryd.

Yn drydydd, os bydd Bil tebyg i'r math a gynigiwyd gan Mrs Morgan yn mynd rhagddo yn y dyfodol, bydd y Llywydd yn gwneud ei barn yn gyhoeddus ynghylch a yw'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad ar yr adeg y caiff y Bil ei gyflwyno, o dan adran 110 o Ddeddf *Llywodraeth Cymru 2006*. Wedyn gellid gwneud sylwadau ar gymhwysedd hefyd i'r Pwyllgor a fyddai'n craffu ar y Bil, fel y digwyddodd yn ddiweddar mewn perthynas â'r Bil Adfer Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos. Caiff y Twrnai Cyffredinol a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd gyfle i godi unrhyw amheuon ynghylch cymhwysedd gyda'r Goruchaf Lys.

Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, bod tryloywder o fudd i'r cyhoedd er ei les ei hun, ac rydym yn cydnabod hefyd ymrwymiad y Cynulliad ei hun i weithio mor agored â phosibl bob amser. Credwn y byddai proses ddeddfwriaethol y Cynulliad yn bodloni'r budd a'r ymrwymiad hwnnw'n llawn, pe bai Bil o'r math a gynigir yn mynd rhagddo yn y dyfodol.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**